

## CADAIR IDRIS

Mae Cadair (neu Cader) Idris yn un o fynyddoedd mwyaf eiconig Cymru. Mae tuag 893m o uchder ac yn rhyw fath o borth deheuol i Eryri, yn edrych dros Ddolgellau. Y tri chopa yw Pen y Gadair, y Cyfrwy a Mynydd Moel.

Mae lluo o straeon a chwedlau'n gysylltiedig â'r mynydd ac ag Idris, y cawr y dywedir ei fod yn arfer eistedd yno. Yn ôl y sôn, mae nifer o lynnoedd yr ardal, fel Llyn Cau sydd mewn cwm hanner ffordd i lawr y mynydd a Llyn Mwyngil (neu Lyn Tal-y-llyn) yn byllau diwaelod. Mae'n debyg y dylech feddwl ddwywaith cyn mynd i wersylla ar Gadair Idris oherwydd dywedir bod y sawl sy'n cysgu ar y mynydd yn deffro'n wallgof neu'n fardd neu, wir, yn peidio â deffro o gwbl.

Mae Idris yn ymddangos ar sawl ffurf mewn chwedlau Cymreig – yn gawr, yn dywysog ac yn seryddwr. Yn ôl un chwedl, tra oedd Idris yn eistedd ar ei gadair un diwrnod, teimlodd gerrig mân yn ei esgidiau. Tynnodd ei esgidiau a lluchio'r cerrig mân i lawr ochr y mynydd. Dywedir mai'r cerrig mân hynny yw'r tair carreg enfawr sydd i'w gweld wrth droed y mynydd. Mae chwedl arall yn sôn am Idris yn taflu tameidiau o raeon hefyd. Glaniodd un darn – cloben o graig – yn Aberllefenni, un arall yn Rhydymain a'r trydydd yn Abergeirw. Mae dwy garreg arall ar y chwith yn y bwlch wrth i chi fynd am Ddolgellau sydd hefyd yn gysylltiedig â'r stori. Idris daflodd y gyntaf, yr un fwyaf sydd dros y ffordd i'r gilfan ac, yn ôl y sôn, ei wraig a luchiodd y llall!

Ond pwy oedd Idris? Sut y daeth yn enwog? Mae'n debyg bod y trywydd i ddod o hyd i'r Idris hanesyddol yn cychwyn gyda Sualda ab Idris, tywysog Meirionnydd yn y seithfed ganrif (tua 630OC). Idris ap Gwyddno o Feirionnydd, a fu farw yn 632OC ac y ceir cyfeiriad ato yn Achrestrau Harley, oedd tad Sualda. Mae rhai pobl yn credu mai Gwyddno, tad Idris, oedd Gwyddno Garanhir, perchennog Cantre'r Gwaelod. Dywedir mai mewn basged ar nant ar dir Gwyddno y cafwyd hyd i Taliesin, y bardd a'r gweledydd lled hanesyddol, ar Galan Mai.

Mae'n braf gweld cysylltiad rhwng y gwahanol chwedlau ond, mewn gwirionedd, mae'n annhebygol y cawn wybod fyth a fu Idris yn dywysog Meirionnydd a bod ei allu milwrol a'i enwogrwydd wedi ei wneud yn 'gawr' ymhlith dynion ynteu ai cynnyrch chwedlau gwerin a dychymyg pobl a ysbrydolwyd gan dirwedd mawreddog a thywydd cyfnewidiol mynyddoedd Eryri ydoedd.

Er mai ag Idris y cysylltir y mynydd gan amlaf, cyfeirir ato weithiau fel Cadair Arthur – sef y Brenin Arthur, mae'n fwy na thebyg. Mae Susan Cooper yn gwneud y cysylltiad hwn yn ei llyfr *The Grey King* sy'n rhan o'i chyfres adnabyddus *The Dark is Rising*.

Yn ôl chwedloniaeth Cymru, roedd Cadair Idris hefyd yn rhan o diroedd hela Gwyn ap Nudd, brenin Annwn, a'i gŵn arallfydol â'u clustiau cochion. Y gred oedd y byddai'r sawl a glywai'r cŵn hyn yn udo yn siwr o farw ac y byddai'r cŵn yn hebrwng ei enaid i Annwn.

Mae nifer o lwybrau troed penodol yn arwain i gopa Cadair Idris, yn cynnwys Llwybr Pilin Pwn (Pony Path) a Llwybr Madyn (Fox's Path). Mae Llwybr Madyn, rhwng Llyn y Gader a'r copa ar lethr serth o sgri rhydd ac mae'n rhaid bod yn eithriadol o ofalus wrth ddod i lawr. Dynodwyd llawer o dir o gwmpas y mynydd yn Warchodfa Natur Genedlaethol ym 1957, a cheir yma blanhigion arctig-alpaidd yn cynnwys y tormaen porffor a'r gorchelygen. Mae rhagor o wybodaeth ar gyfer cerddwyr sy'n dymuno ymweld â Chadair Idris, yn [www.wales-walking.co.uk](http://www.wales-walking.co.uk).